Ysgol y Llys
Rhodfa'r Tywysog, Prestatyn
Sir Ddinbych, LL19 8RP
e-bost | email: ysgol.yllys@denbighshire.gov.uk
ffôn | phone: 01745 853019
gwefan | website: www.ysgolyllys.cymru

12.09.25

**Parthed: Cylchlythyr**

Annwyl Rieni,

**Noson Agored**- Cofiwch am y Noson Agored anffurfiol a gynhelir **nos Lun y 6ed o Hydref yn Ysgol y Llys**. Cyfle i rieni alw mewn i ddosbarthiadau eu plant i weld yr amgylchfyd dosbarth ac am sgwrs anffurfiol gyda'r staff dysgu. Does dim rhaid bwcio apwyntiad a gallwch droi fyny unrhyw amser rhwng 3.30pm-5.00yp. Ar gyfer Bl.5 a 6, bydd cyflwyniad gan Ysgol Clwyd am 4.00 a byddent yno i ateb unrhyw gwestiwn am y trosglwyddo i Flwyddyn 7.

**Presenoldeb –** Mae presenoldeb yn yr ysgol yn allweddol i helpu'r dysgwyr i gael y cychwyn gorau mewn bywyd a rhoi'r cyfle gorau iddynt wneud y mwyaf o'u cyfleoedd dysgu. Mae tystiolaeth glir sy'n cysylltu cyflawniadau addysgol a bod yn bresennol yn yr ysgol. Mae Ysgol y Llys yn benderfynol o ddarparu'r addysg orau i'r dysgwyr rydym ni'n eu gwasanaethu. Sicrhewch eich bod yn ffonio'r llinell absenoldeb yr ysgol os ydy eich plentyn yn absennol cyn 10 o'r gloch.

**Traffig -** Rydym wedi sylweddoli ar gychwyn y flwyddyn ar y cynnydd o draffig sydd ar Princes Avenue ac ar dir yr ysgol. Gai ofyn yn garedig i chi sicrhau eich bod yn parchu ein cymdogion a gyrru yn ofalus, yn enwedig gyda nifer o ddysgwyr o amgylch y safle. I'ch atgoffa chi, un mynediad sydd ar gyfer dod i mewn i'r ysgol ac un allanfa sydd. Gofynnwn yn garedig i chi beidio gyrru i mewn i'r ysgol trwy'r allanfa. O ran parcio yn y maes parcio, sicrhewch eich bod yn gyrru yn araf ac yn ofalus gan wneud yn siŵr eich bod yn parcio yn daclus er mwyn i staff cael lle i barcio. Ceisiwch barcio yn y man gollwng a cherdded i fyny gymaint a fedrwch chi.

**Trefniadau Diwedd Dydd** - Hoffwn atgoffa rhieni i sicrhau eu bod yn casglu eu plentyn yn brydlon ar ddiwedd y dydd. Os ydych chi yn casglu am 3.00 ac yna yn aros am 3.15, gofynnwn yn garedig i chi sicrhau nad yw eich plentyn yn chwarae pe l-droed wrth ymyl y ceir nac yn dringo neu chwarae yn y coed a'r cloddiau.

**Piano Newydd** - Llawer o ddiolch i Mr Geraint Roberts am y rhodd garedig yn ddiweddar. Fel ysgol, rydym yn hynod o ddiolchgar am y piano newydd a byddwn yn sicr o edrych ar ei hôl hi. Bydd y piano yn cael ei ddefnyddio ganddom i gefnogi'r dysgwyr yn yr Eisteddfod a'r holl berfformiadau yn y dyfodol. Diolch o galon!

**Llongyfarchiadau!** – Hoffwn longyfarch 4 aelod o staff a gymerodd rhan yn hanner marathon Caernarfon dros y penwythnos. Camp a hanner wrth gymryd rhan ac ymdrech arbennig wrth redeg a chodi arian ar gyfer elusen cancr y coluddyn. Os hoffech gyfrannu, cliciwch ar y linc yma: *: https://www.justgiving.com/page/emma-robertshaw-2?utm_medium=FR&utm_source=CL*

**Ffurflenni Mynediad**- Cofiwch i gwblhau eich ffurflenni os oes gennych blant yn yr oedrannau canlynol. Dilynwch y ddolen ganlynol: Derbyn i ysgol | Cyngor Sir Ddinbych
**Ceisiadau ar gyfer ysgolion Uwchradd (Bl.7) ar agor o 01/09/2025 hyd at 03/11/2025 – Cadarnhad erbyn Mawrth 2il, 2026.**
**Ceisiadau ar gyfer llefydd Dosbarth Derbyn ar agor o 22/09/2025 hyd at 17/11/2025 – Cadarnhad erbyn Ebrill 16eg, 2026.**
**Ceisiadau ar gyfer llefydd Meithrin ar agor 22/09/2025 hyd at 17/02/2026 – Cadarnhad erbyn Mai 5ed, 2026.**

Cofion gorau,

*Mr Rhys Griffith*

Mr Rhys Griffith a Staff Ysgol y Llys
Pennaeth
Ysgol y Llys

Ysgol y Llys
Rhodfa'r Tywysog, Prestatyn
Sir Ddinbych, LL19 8RP
e-bost | email: ysgol.yllys@denbighshire.gov.uk
ffôn | phone: 01745 853019
gwefan | website: www.ysgolyllys.cymru

*12.09.2025*

***Subject: Newsletter***

*Dear Parents and Guardians,*

***Open Evening –*** *Remember our informal Open Evening is held on Monday the 6th of October at Ysgol y Llys. It's a great opportunity for parents to see their child's class environment and for an informal chat with the teaching staff. There is no need to book an appointment and you can turn up anytime between 3.30 and 5pm. For Year 5 and 6, there will be a presentation from Ysgol Glan Clwyd at 4pm and to answer any questions about the transition to Year 7.*

***Attendance –*** *Good school attendance is key to helping learners have the best possible start in life to support and maximise their potential learning opportunities. There is clear evidence which links educational achievement to good school attendance. At Ysgol y Llys we are determined to provide the best education for the learners we serve. If your child is absent, please make sure you ring the schools' absence line before 10am.*

***Traffic –*** *We have noticed at the start of the year of the increase of traffic on Princes Avenue and on school grounds. Could you please make sure that you respect our neighbours and drive carefully, especially with so many pupils around the site. To remind you, there is one entrance for coming onto the school ground and an exit to leave the school grounds. We kindly ask you not to drive onto the school grounds through the exit. As for parking in the car park, please make sure that you drive slowly and carefully by making sure that you park tidily for the staff to have space to park. Try and park at the drop off and walk up as much as you can.*

***End of day arrangements*** *– I would like to remind parents to make sure they are punctual to pick up their child at the end of the school day. If you are picking up at 3pm and 3.15pm, we kindly ask that you make sure that your child doesn't play football near the cars or climbing or playing in the trees and hedges.*

***New Piano*** *– Many thanks to Mr Geraint Roberts for the kind recent donation. As a school, we are extremely grateful for the new piano and will be sure to take good care of it. The piano will be used to support learners in the Eisteddfod and all future performances. Heartfelt thanks!*

***Congratulations!*** *– We'd like to congratulate 4 members of staff who took part in the Caernarfon half marathon over the weekend. A fantastic achievement in taking part and a special effort in running and raising money for the bowel cancer charity. If you'd like to contribute, click on this link: https://www.justgiving.com/page/emma-robertshaw-2?utm_medium=FR&utm_source=CL*

***Admission to Ysgol y Llys-*** *The online forms for admission to various age groups for the 2026-27 academic years will be opening soon. Parents are advised to complete within the scheduled timeframe to ensure requests are submitted to Denbighshire Authority on time. Please follow this link for further information* School admissions | Denbighshire County Council

***Applications open from 01/09/2025 until 03/11/2025 for Secondary School Places (Year 7) - Notification of places on March 2nd, 2025.***
***Applications open from 22/09/2025 until 17/11/2025 for Reception Class Places – Notification of places on 16th of April, 2026.***
***Applications open from 22/09/2025 until 16/02/2026 for Nursery Class Places – Notifications of places on the 5th of May, 2026.***

*Kind regards,*

*Mr Rhys Griffith*

*Mr Rhys Griffith and Ysgol y Llys Staff*
*Head Teacher*
*Ysgol y Llys*

Cyfeirier pob gohebiaeth at y Pennaeth
*Please address all communications to the Headteacher*

YSGOL Y LLYS
Lles Gwerin Llys Agored